| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **21, IONAWR, 2010** |
| **PWNC** | **AROLWG FFINIAU ETHOLIADOL.** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO ER CYMERADWYAETH Y CYNGOR SYLWADAU CYCHWYNNOL AR YR AROLWG.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD DYFED EDWARDS, ARWEINYDD Y CYNGOR.** |

1. Cychwynnwyd arolwg o drefniadau etholaethol ar gyfer sir Gwynedd ar y 9fed o Dachwedd, 2009 gyda chyflwyniad gan y Comisiwn Ffiniau i holl aelodau'r Cyngor. Gofynnwyd am sylwadau gan y Cyngor cyn i'r Comisiwn fynd ati i ffurfio argymhellion drafft. Pwrpas yr adroddiad hwn ydi cyflwyno sylwadau cychwynnol y Cyngor.

2. Anfonwyd holiadur at holl aelodau'r Cyngor a derbyniwyd 25 ymateb. Daeth Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol at ei gilydd i ystyried yr atebion ac i lunio sylwadau cychwynnol.

3. Atodir y sylwadau cychwynnol yn yr atodiad i'r adroddiad hwn. Fe welir ei fod yn canolbwyntio ar egwyddorion neu feini prawf yn hytrach na manylion unrhyw ffiniau penodol.

**<u>ARGYMHELLIAD.</u>**

4. Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r sylwadau atodol i'w hanfon i'r Comisiwn Ffiniau.

**ATODIAD.**

**AROLWG O'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR GWYNEDD**
**Sylwadau Cychwynnol gan Gyngor Gwynedd.**

1. Hoffem ddiolch i Aelodau'r Comisiwn am eu cyflwyniad i aelodau'r Cyngor ar y 9fed o Dachwedd, 2009 a'r gwahoddiad i anfon sylwadau cyn i'r Comisiwn fynd ati i lunio cynigion drafft ar gyfer Gwynedd. Mae'r sylwadau yma yn seiliedig ar yr egwyddorion neu'r meini prawf yr hoffem i'r Comisiwn roi sylw iddynt wrth lunio eu cynigion.

2. Mae'r Cyngor yn derbyn y gellid gostwng nifer yr aelodau heb andwyo yn ormodol ar waith y Cyngor. Barn y Cyngor ydi fod angen 65 aelod er mwyn cyflawni ei swyddogaethau yn effeithiol. Byddai hyn rhoi cymhareb o un aelod i bob 1,330 etholwr ar gyfartaledd.

3. O fewn y gymhareb gyffredinol yma, mae'n deg cael amrywiaeth rhwng rhanbarthau etholiadol, yn dibynnu ar wahanol faterion ansoddol. Mae'r gofynion yn amrywio yn ôl proffil y rhanbarth etholiadol, ei phoblogaeth, ei maint daearyddol a'i natur (e.e. mae gwahaniaeth sylweddol rhwng y gofynion o fewn ardal drefol a'r gofynion o fewn ardal wledig). Tra bod yn dêg rhoi rhywfaint o bwyslais i "werth y bleidlais", mae angen i'r Comisiwn hefyd gydnabod yr angen i amrywio'r gymhareb yn ôl gofynion yr ardal a gofynion llywodraeth leol hwylus ac effeithiol.

4. Mae mwy o ddisgwyliadau ar aelodau etholedig y dyddiau hyn, gyda'r llwyth gwaith yn drymach nag yn y gorffennol. Mae pwyslais mawr ar arwain y gymuned, ac ar gynrychioli y Cyngor ar wahanol bartneriaethau a chyrff allanol. Mae aelod yn aml yn cael ei dynnu rhwng ei ddyletswyddau tuag at y rhanbarth etholiadol a'r gwaith llywodraethu o fewn y Cyngor. Serch hynny, nid yw'r swydd ond yn cael ei chydnabod fel un rhan-amser. Mewn gwirionedd bydd unrhyw ostyngiad yn nifer yr aelodau yn cynyddu'r baich gwaith ar gynghorwyr ac yn arwain at yr angen i wneud swydd y cynghorydd yn un llawn amser gyda chydnabyddiaeth ariannol briodol yn dilyn hynny. Wrth bennu nifer aelodau, felly mae angen ystyried eu gallu i gyflawni'r holl wahanol ddyletswyddau.

5. Mae Gwynedd yn ardal ddaearyddol fawr iawn. Mae ynddi 64 cyngor cymuned. Gan fod yr aelod lleol yn gyswllt pwysig rhwng y Cyngor a'i gymuned, dylid sicrhau fod dosbarthiad y rhanbarthau etholiadol yn golygu na fydd unrhyw gynghorydd gyda mwy na dau gyngor cymuned o fewn eu rhanbarth. Dyna fyddai'n caniatau llywodraeth leol effeithiol ar bob haen.

6. Mae pedair rhanbarth etholiadol yng Ngwynedd gyda dau aelod ynddynt. Nid yw'r Cyngor yn cefnogi cynyddu nifer y rhanbarthau aml-aelod, ac o gadw y rhai presennol ni ddylid cynyddu nifer yr aelodau ynddynt uwchlaw dau. Barn y Cyngor ydi mai un aelod i bob rhanbarth sy'n rhoi'r trefniadau mwyaf hwylus ac effeithiol. Mewn ardal fel Gwynedd mae perygl y byddai cynyddu nifer y rhanbarthau aml-aelod yn golygu y byddai'r rhanbarthau hynny mor fawr, y byddent yn anhylaw i'w gweinyddu, yn gwneud gwaith y cynghorwyr yn anodd ac yn dod ag amrywiol gymunedau at ei gilydd heb barchu cysylltiadau naturiol.

7. Er mai'r boblogaeth ar y gofrestr etholiadol yw'r sail ar gyfer y gymhareb aelod i etholwr, mae rhai ardaloedd o fewn y sir gyda nifer uchel o bobl sydd heb gofrestru. Mae hyn naill ai oherwydd fod trigolion lleol heb gofrestru, neu oherwydd fod y boblogaeth yn sylweddol uwch ar adegau penodol o'r flwyddyn oherwydd ail-gartrefi, a.y.b. Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn dêg cymryd y boblogaeth ychwanegol hyn i ystyriaeth drwy amrywio'r gymhareb aelod-etholwr yn y rhanbarthau hynny sydd yn cael eu heffeithio fwyaf.

8. Wrth sefydlu ffiniau, mae'r Cyngor yn cytuno ei fod yn ddymunol gosod ffiniau sydd yn hawdd eu hadnabod ac sydd yn parchu cysylltiadau lleol. Hoffai'r Cyngor pe bai'r Comisiwn yn cymryd dwy egwyddor i ystyriaeth wrth osod ffiniau - yn gyntaf y dylid cadw at ardaloedd hanesyddol Arfon, Dwyfor a Meirionnydd oni bai fod achos teilwng dros wyro oddi wrthynt. Yn ail, y dylid rhoi ystyriaeth i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd a pheidio â gosod rhanbarthau sy'n cwmpasu mwy nag un dalgylch.

9. Yn olaf, mae'r Cyngor newydd fabwysiadu Cynllun Datblygu Unedol sy'n rhagweld yr anghenion datblygu dros gyfnod yr Arolwg. Gofynnir i'r Comisiwn roi sylw dyledus i'r cynllun wrth osod ffiniau fel y bydd unrhyw ranbarthau newydd yn parhau yn addas i'w pwrpas tan yr arolwg nesaf.

10. Hyderwn y bydd y Comisiwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r egwyddorion a'r meini prawf yn y sylwadau hyn wrth lunio eu cynigion drafft ar gyfer Gwynedd.